

ADLEOLI PENCADLYS S4C I
GAERNARFON:
ADRODDIAD ARDRAWIAD IAITH,



S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

paratowyd
gan

Gweriniaith

1.	Cyd-destun.	3
2.	Dadansoddiad o ganfyddiadau holiadur iaith, diwylliant, cymdeithas ac economi.	4
3.	Dyfarniad Sgôr	20
4.	Y Gymraeg	23
5.	Dadansoddiad o'r cyd-destun ieithyddol	33
6.	Diwylliant	34
7.	Cymdeithas	37
8.	Diweddsglo	38
9.	Atodiad A: Holiadur iaith, diwylliant, cymdeithas ac economi	39

1. Cyd-destun

Comisiynwyd Gweriniaith trwy is-gontract hefo JOP Consulting gan Gyngor Gwynedd i darparu asesiad o effaith cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol posibl adleoli pencadlys S4C i'r ardal a datblygiad ôl-ddilynol canolfan diwydiannau creadigol ar Gaernarfon, Gwynedd a'r rhanbarth ehangach.

Mae'r cwmni wedi bod yn ymwneud a maes cynllunio ieithyddol ers 1993 ac wedi paratoi dros 40 ardrawiad iaith ar ddatblygiadau tai, gwestai, tai fforddiadwy, ysgolion a dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd. Cwmpasai methodoleg cynnal yr ardrawiad:

- (i) Gylchredeg *holiadur ar lein* (copi yn Atodiad A) ymhlith 15 o fudd-ddeiliaid allweddol y maes diwydiant creadigol yng Ngogledd Orllewin Cymru (rhwng *Rhagfyr 2013-lonawr 2014*). Cynhwysai hyn sector Addysg Bellach ac Uwch, Canolfannau Celfyddydol, Partneriaethau/Undebau, cwmnïau teledu annibynnol, cwmni animeiddio, cyflenwyr hyfforddiant, sector llenyddol a theatr. Derbyniwyd Cafwyd ymateb gan 13 (neu 86%).
- (ii) Cynnal *grŵp ffocws* (5.30-7pm, 29 Ionawr 2014) - yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd gyda chynrychiolaeth o'r sectorau canlynol:

- Fforwm Celfyddydau Gwynedd
- Siambr Fasnach Caernarfon.
- Adran Economi a Chymuned, Adran Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd.
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Iaith, Cyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.
- Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Arweiniad Strategol a Cynllunio Busnes, Cyngor Gwynedd.
- Comisiynydd y Gymraeg.
- Cyngor gyrfaol Ysgolion Uwchradd yr ardal.

Trafodwyd prif themâu economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol ar sail cyflwyniadau PowerPoint o'r canfyddiadau interim. Adlewyrchwyd y sylwadau yn yr adroddiad hwn.

2. Dadansoddiad o ganfyddiadau holiadur iaith, diwylliant, cymdeithas ac economi.

Yn fras seiliwyd trywyddau'r holiadur ar-lein ar ddeunaw cwestiwn methodoleg *Cynllunio a'r iaith Gymraeg – Y Ffordd Ymlaen* a baratowyd gan gonsortium o sefydliadau (Awdurdodau Lleol, Bwrdd yr Iaith, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn 2005.

Ar gychwyn yr holiadur nodwyd:

"Cyd-destun S4C

"Mewn araith yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg yn 2012 fe gyhoeddodd Ian Jones, Prif Weithredwr S4C ei fod yn awyddus i ystyried y posibilrwydd o ddatganoli rhannau o waith S4C i leoliadau y tu allan i Gaerdydd.

Yn dilyn hynny, fe gyhoeddwyd camau ffurfiol i gynnal astudiaeth dichonoldeb i'r posibilrwydd o ddatganoli, a hynny ar sail yr effaith posib y gallai datganoli S4C gael ar yr iaith, ar swyddi ac ar yr economi mewn ardal, neu ardaloedd y tu allan i Gaerdydd.

Fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb i adleoli S4C fe wahoddwyd 'datganiadau o ddiddordeb' gan sefydliadau, mudiadau ac ardaloedd ledled Cymru. Fe ddaeth dwsin o 'datganiadau o ddiddordeb' i'r fei, ac fe roddodd ymateb mor gadarnhaol gyfle i S4C fwrw mlaen â chamau nesaf. Roedd yn broses agored a thryloyw, ac fe osodwyd meini prawf a methodoleg glir er mwyn llunio rhestr fer o geisiadau. Roedd yn rhaid adnabod unrhyw heriau a phwyso a mesur gwerth a budd unrhyw gynllun i S4C ac i'r ardaloedd hynny o dan ystyriaeth.


Roedd pwysigrwydd dod a thua hanner cant o swyddi cymysg Cymraeg proffesiynol â chreu presenoldeb pencadlys sy'n weithredol yn y Gymraeg yn hanfodol i'r meini prawf, er mwyn hyrwyddo defnydd, statws a proffil yr iaith. Y gobaith yn ogystal byddai creu sbardun pellach at hwb diwydiant creadigol Cymraeg yn yr ardal llwyddiannus."

Cyd-destun Gwynedd (Doc Fictoria, Caernarfon)

Dewiswyd Doc Fictoria, Caernarfon fel un o ddau lleoliad posibl ar restr fer S4C. Nid oes yr un o'r 50 swyddi i'w hadleoli yn cynnwys swyddi technegol – felly swyddi gweinyddu a rheoli yn unig ydynt.

Fel unigolion/sefydliadau sy'n gweithio ym maes cyfryngau a'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Orllewin Cymru rydym yn awyddus iawn i gyrchu eich barn am effeithiau mwyaf tebygol y 'cynllun' (sef adleoli hyd at 50 o swyddi Cymraeg hanfodol o Bencadlys S4C i Gaernarfon). Gofynnwn i chi felly gwblhau'r holiadur hwn erbyn dim hwyrach na dydd Mercher 22 Ionawr 2014, os gwelwch yn dda. Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad parod."


(i) Y sector a gynrychiolwch



Tra bo'r sampl o sectorau a ymatebodd yn isel, mae'n adlewyrchu'n drylwyr iawn y diwydiant creadigol yng Nghaernarfon, Gwynedd a Gogledd Orllewin Cymru gan felly roi hygyrddedd a dilysrwydd i'r canfyddiadau.

Nodweddion Poblogaeth

- (ii) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal Arfon



Mae consensws y byddai adleoli pencadlys S4C yn arwain at gynnydd tymor hir yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal Arfon. Hyd at 50-55 swydd fyddai'n dod i Gaernarfon, a dengys mai oddeutu 20-25 deilydd swyddi (a'u teuluoedd) fyddai'n debygol o adleoli o Gaerdydd i Gaernarfon/Arfon¹. Felly mae'n debygol y byddai oddeutu 20-25 swydd newydd yn cael eu hysbysebu a'u llenwi o Ogledd Orllewin Cymru, sef cyflogaeth newydd lleol i'r economi bresennol. Y casgliad cronus felly yw y byddai'r cynllun yn denu mwy o siaradwyr Cymraeg i Arfon.


“Mae mwyafrif o ardaloedd arfordirol Cymru yn Saesneg iawn a buasai datblygiad o'r math yma yn mynd yn groes i'r llif am unwaith. Croesawu y cynllun o safbwynt economaidd, diwylliannol a ieithyddol.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
----------------------	---------	----------

¹ Adleoliad staff BBC o Lundain i Mediacity, Manceinion

(iii) Ydy'r cynllun yn debygol o gyfrannu at gynyddu mewnfudo ymhlith siaradwyr Cymraeg i ardal Arfon?




Cred dros 92% y byddai'r cynllun y cyfrannu at gynyddu mewnfudo siaradwyr Cymraeg naill ai yn y tymor byr neu ymhlith dros 84% yn y tymor hir.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
----------------------	---------	----------

(iv) Ydy'r cynllun yn debygol o gyfrannu at leihau'r patrwm o allfudo ymhlith siaradwyr Cymraeg o ardal Arfon?



Mae'n arwyddocaol fod cynifer yn grediniol y byddai'r cynllun yn cyfrannu at leihau'r patrwm o allfudo, yng ngoleuni'r tueddiad tymor hir yng Ngwynedd. Lleiafrif sy'n rhagweld dim newid. Maint ac hyd y cyfraniad sy'n allweddol, ond o ystyried cyflawni'r weledigaeth ehangach i greu hwb i'r diwydiant creadigol gellir gweld y byddai effaith mwy tymor hir ac ar raddfa fwy.

“Byddai datblygiad fel hyn yn cadw nifer o bobl ifanc yn yr ardal ac yn rhywbeth a fyddai'n annog eraill i ddychwelyd. Yn ogystal a'r swyddi uniongyrchol, mae'r effeithiau seicolegol o ran hyder a'r ddelwedd gyffredinol o'r ardal yn rhai hynod o gadarnhaol.”


"Roedd oddeutu traean o siaradwyr Cymraeg 15 oed 1991 [Cymru gyfan] wedi mudo i Loegr erbyn 2001."

(Delyth Morris (2010) 'Welsh in the 21st Century', Cardiff; University of Wales Press)

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

- (v) Os yw'r cynllun yn cyfrannu at newid patrymau mewnfudo/ allfudo a fyddai hynny yn barhaol neu dros dro?




Mae bron dwy draean yn grediniol y byddai'r newid yn barhaol gyda'r garfan 'dim newid' yn adlewyrchu barn corff hyfforddiant heb bresenoldeb yn y Gogledd.

“O ran yr iaith eto byddai effaith gadarnhaol gan atgyfnerthu yr ardal fel conglaen i'r iaith. Byddai hefyd effaith anuniongyrchol yn y tymor canol/hir tybiaf o ganlyniad i gwmnïau newydd yn sefydlu neu symud i fewn i'r ardal o ganlyniad i fodolaeth hwb creadigol yng Nghaernarfon. Byddai datblygiad o'r fath hefyd yn reswm dros aros yn lleol i weithio a chwilio am waith gan y byddai mwy o swyddi o ansawdd ar gael yn lleol a byddai hyn yn unol â chynllun y Cyngor o Lwyddo'n Lleol.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol parhaol	Niwtral	Negyddol
---------------------------	---------	----------

- (vi) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at newid cadarnhaol neu negyddol yn strwythur oed y gymuned trwy arwain at siaradwyr Cymraeg yn gadael/symud i'r ardal, gan arwain at newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn symud i ffwrdd?




Consensws yn rhagweld effeithiau cadarnhaol tymor hir.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

- (vii) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at gynyddu neu leihau tensiynau cymdeithasol a/neu chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?




Mae'r farn yn fwy rhanedig yma gydag charfan yn rhagweld 'cynnydd – tymor hir', carfan llai yn rhagweld 'dim newid' a 46% yn rhagweld 'lleihad'.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
-------------------	---------	----------

Ansawdd Bywyd

- (viii) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar iechyd pobl leol trwy...
- gynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
 - fod â'r potensial i wneud bywyd yn ddrytach, gan felly gynyddu'r risg o broblemau ariannol / straen ar y boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith?




Rhagwelai'r mwyafrif helaeth na fydd unrhyw newid.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
------------	---------	----------

- (ix) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar fwynder yr ardal leol (trwy arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi)?




Ym marn y mwyafrif 'dim newid' fydd effaith y cynllun ar fwynder yr ardal leol.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
------------	---------	----------

- (x) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at fwy neu lai o fygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned gan felly wneud yr ardal yn lle llai dymunol i fyw ynddi?




Er bod bron i 70% yn rhagweld 'dim newid' mae'n werth nodi bo hi wastad yn annos ceisio rhagweld effeithiau ymddygiadol gyda'r ru'n fath o hygrededd. A fyddai mwy o swyddi a chyfraniad i'r economi leol yn amharu ar gyfraddau troseddau a thrais?

Effaith ar laith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
------------	---------	----------

Ffactorau Cymunedol

- (xi) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar fusnesau lleol?




Mae'r farn yn gadarn o blaid effeithiau cadarnhaol tymor hir i fusnesau lleol – gydag un corff hyfforddiant yn anghytuno a gweld 'dim newid'. Mewn gwirionedd mae'n anodd iawn rhagweld na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn arbennig o ran creu hwb i'r diwydiant creadigol, sydd eisoes wedi ail egino yn yr ardal ar sail lleoli cwmnïau teledu a phartneriaeth C6.

“Creu rhagor o swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofynnol. Creu effaith clwstwr o ran cryfhau'r busnesau creadigol sydd yng Nghaernarfon a'r cyffiniau yn barod a denu rhagor o fusnesau fyddai'n elwa o bresenoldeb a gweithgareddau darlledwr cenedlaethol. Byddai o fudd hefyd i gwmnïau cyhoeddi lleol, cwmnïau digidol, busnesau marchnata ayyb. Twf yn y busnesau yn y sector yn cyfrannu'n bellach at yr economi (gweler e.e. impact cyfres fel Rownd a Rownd ar yr economi leol). Wrth gryfhau'r cwmnïau a'r busnesau o fewn y sector creadigol, byddai o gymorth wrth iddyn nhw ddenu cytundebau rhwydwaith a rhyngwladol sylweddol o thu hwnt i Gymru, felly'n cyfrannu'n bellach at dwf economaidd a diwylliannol yr ardal.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xii) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar swyddi lleol?



Mae mwyafrif y budd-ddeiliaid yn grediniol y cai'r cynllun effaith cadarnhaol tymor hir.

“Mae'n debyg y byddai denu 50+ o swyddi newydd yn cael effaith sylweddol ar yr economi yn lleol yng Nghaernarfon a'r ardal gyfagos gan fod posibilrwydd o 50 teulu yn symud i fewn i'r ardal i 'fyw' ac felly y gwariant ddaw yn sgil hynny - £5000 yr wythnos ar gyfartaledd ar fwyd ayyb.”


“Eisoed mae gweithgarwch byrlymus o fewn maes y diwydiannau creadigol yn yr ardal trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai dyfodiad mwy o swyddi yn cadarnhau gallu'r sector i gyfoethogi yr ardal yn ddiwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae'n briodol bod cadarnle yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan allweddol yng ngweithrediad S4C.”

“Os yw'r sawl sy'n symud yn gallu dylanwadu ar comisiynau ayyb yna mae'r dylanwad yn debygol o fod yn fwy na 50 swydd yn unig, h.y. mae yna ddirywiad 'di bod yn y cynnwys yn dod o'r Gogledd dros y 10 mlynedd diwethaf, h.y. llai o gwmnïau annibynnol bach yn gwneud rhaglenni i S4C, cau Barcud a llai o ddramâu (oni bai am gyfres drama Rownd a Rownd.) Anodd gwybod os mai symud nôl i'r Gogledd fydd y sawl sy'n cael swyddi, neu fwy o swyddi i bobl sy'n byw yn lleol beth bynnag, cyfuniad o'r ddau rwy'n cymryd yw'r gobaith.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xiii) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd cadarnhaol neu negyddol?



Mae darlun eglur yn ymddangos lle mae'r mwyafrif helaeth yn rhagweld buddiol cadarnhaol o ran amrywiaeth economaidd. Byddai adleoliad darlledwr Cymraeg yn cryfhau marchnad lafur Gymraeg a gwerth economaidd i'r iaith yng Ngwynedd. Oherwydd hynny mae unrhyw fuddsoddiad economaidd gyfystyr â chryfhau sefyllfa'r Gymraeg oherwydd dwysedd siaradwyr a'r ffaith bod elfennau allweddol cynnal a throsglwyddo iaith yn gweithredu'n effeithiol.

Yng ngoleuni canfyddiadau'r asesiad economaidd, gyda thlodi, diffyg swyddi sy'n talu'n dda a'r ffaith bod rhai cymunedau yn ddifreintiedig ac ymhlith y 10% tlotaf yng Nghymru, does dim rhyfedd y rhagwelir buddiol cadarnhaol. Mewn cyfnod o grebachu sector cyhoeddus a gorddibyniaeth Gwynedd ar y sector gyhoeddus byddai dyfodiad y cynllun i'r ardal yn hwb mwy allweddol fyth.

“Byddai'n adnewyddu'r diddordeb yn y cyfryngau mewn ardal sydd wedi cael ei effeithio'n negyddol iawn wedi cau stiwdio Barcud, a rhai o'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol eraill a fu yng Ngwynedd gynt.”


“Bydd yn bleidlais o hyder i allu pobl lleol i gynnal gwasanaeth blaengar a dylanwadol. Dwi'n rhagweld y bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd a ffydd i'r dyfodol mewn ardal sydd wedi profi ei siâr o gyny. Bydd yn gaffaeliad ac yn hwb sylweddol i'r elfennau uchod.”

“Buasai'n cyfrannu mewn ffordd positif tuag at twf yn y diwydiannau creadigol yn yr ardal ac atgyfnerthu yr hwb creadigol sydd eisoes wedi datblygu yn ardal Doc Fictoria, Caernarfon.”

Effaith ar laith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xiv) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar lefelau cyflog lleol?




Tra bod cyflogaeth a swyddi sy'n talu'n dda yn brin yn ardal Arfon a Gwynedd. Nid oes consensws y byddai'r cynllun yn cael effaith cadarnhaol ar lefelau cyflog lleol a hynny mae'n debyg oherwydd graddfa'r cynllun. Bydd y cynlluniau ehangach yn fwy tebygol o greu impact mwy a hirdymor.

“Angen sicrhau bod y swyddi yma yn gyfartal a unrhyw swydd fyddai yng Nghaerdydd, h.y. o rhan tâl.”

Effaith ar laith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

- (xv) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar bris cyfartalog tai?




Mae bron 70% yn credo na chai effaith ar bris cyfartalog tai, ac mae tystiolaeth anecdotal adleoli darlledwr cyhoeddus arall yn dueddol o ategu'r farn hon. Nid yw 55 swydd yn fas critigol sylweddol i gael unrhyw effaith, ond os cyflenwir hanner y swyddi o'r boblogaeth breswyl leol caiff lai fyth o effaith ar bris cyfartalog tai.

Effaith ar laith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
------------	---------	----------

Cyflenwad Seilwaith

- (xvi) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar ysgolion lleol?




O gofio mai swyddi Cymraeg hanfodol yw'r rhain gan S4C, y rhagdybiaeth yw y byddai mwyafrif teuluoedd (a phlant) fyddai'n adleoli i'r Gogledd Orllewin yn ddwyieithog. Gan hynny, dim ond effaith cadarnhaol fyddai'r dyfodiad yn ei gael ar Ysgolion yr ardal – yn arbennig hefyd o gofio polisi iaith addysg Gwynedd, ac i raddau llai Ynys Môn a Chonwy. Os penodir i gyfradd o'r swyddi newydd yn lleol, byddai effeithiau hynny yn ddibwys.

“Byddai presenoldeb S4C yn gysur ond hefyd yn sbardun i ddatblygu sgiliau gweinyddol fyddai'n gweddu i'r diwydiannau creadigol. Byddai hyn yn dylanwadu ar addysg ysgolion a gyrfaedd ac yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xvii) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar wasanaethau gofal iechyd trwy fygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg?




Mae'r farn bron yn gyfartal ranedig ynglŷn a'r effaith tebygol – mwy na hanner yn rhagweld dim newid a 46% yn rhagweld effaith cadarnhaol tymor hir.

Byddai unrhyw gynllun creu mwy neu adleoli swyddi yn golygu cyfraniad at gynnaladwyedd cyfleusterau iechyd – gan fod cyfran ychwanegol o bobl yn symud i'r ardal yn hytrach nac allfudo. Gyda phob un o'r 50 deilydd swyddi yn siaradwyr Cymraeg, bydd hyn yn cyfrannu at gynnal os nad atgyfnerthu'r galw/defnydd am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xviii) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tai tafarn?




Mae mwyafrif helaeth yn grediniol y cai'r cynllun effaith cadarnhaol hirdymor ar wasanaethau lleol gan y byddai adleoli i Gaernarfon yn golygu symud o Gaerdydd. Byddai'r 2 opsiwn arall yn cynnal y *status quo* presennol gan na fyddai rheidwydd i godi pac ac adleoli (cymudo).

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
----------------------	---------	----------

(xix) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith?




Fawr o newid o'r sefyllfa bresennol. O gofio proffil iaith Caernarfon, dengys mai ymylol os nad amherthnasol fyddai achosion o densiynau cymdeithasol ieithyddol.

Effaith ar laith:

Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
------------	----------------	----------

- (xx) Ydy'r cynllun yn debygol o arwain at newidiadau cadarnhaol neu negyddol i'r traddodiadau/diwylliant Cymreig lleol?




“Fel rhywun sy'n byw yn yr ardal, yn amlwg byddwn yn dymuno i hyn ddigwydd, ond mae gen i bersbectif cenedlaethol a gwrthrychol iawn am hyn i gyd, ac mae'n rhaid dweud fod lleoli'r datblygiad yma mewn ardal sydd ar hyn o bryd yn gadarnle i'r Gymraeg yn gwneud llawer iawn o synnwyr. O edrych ar ddaearyddiaeth a demograffeg Cymru, mae'n ateb call a chytbwys fyddai'n gwneud llawer iawn o les ar sawl lefel.”

Gyda bodolaeth marchnad lafur Gymraeg yng Ngwynedd, byddai adleoli Pencadlys S4C yn ffit ieithyddol hollol gymhathol fyddai'n cydweddu ac ychwanegu at draddodiad a diwylliant Cymreig cyfoethog yr ardal.

Effaith ar laith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
-----------------------------	---------	----------

(xxi) Ydy'r cynllun yn debygol o gael effaith cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau gwirfoddol /gweithgarwch/ieuenctid lleol?



Oherwydd fod y cynllun yn economaidd a ieithyddol gymhathol i'r ardal gallai gyfrannu at godi ymwybyddiaeth, hyder a dyhead pobl ifanc i weithio ym myd cyffrous y diwydiant creadigol aml blatfform sydd bellach yn rhan annatod o fywyd beunyddiol pobl ifanc trwy gyfryngau megis Facebook, You Tube, Flickr ayyb.

“Byddai cael presenoldeb S4C yng ngogledd Orllewin Cymru yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at iaith, cymdeithas, diwylliant ac economi'r rhanbarth cyhyd a bod y sefydliad yn mabwysiadu ethos o weithio mewn partneriaeth. Dylai S4C ystyried ei hun fel catalydd i dwf y diwydiannau creadigol a bod yn wiliadwrus rhag ymddwyn yn ynysig a mewnblyg.”

Effaith ar iaith:

Cadarnhaol tymor hir	Niwtral	Negyddol
----------------------	---------	----------

3. Dyfarniad sgôr

Categoriâu	Dyfarniad o ran effaith ar iaith
Nodweddion Poblogaeth	+6 Cadarnhaol
1. Cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg yn Arfon	Cadarnhaol tymor hir
2. Cynyddu mewnfudo siaradwyr Cymraeg i Arfon	Cadarnhaol tymor hir
3. Cyfrannu at leihau patrwm allfudo siaradwyr Cymraeg o Arfon	Cadarnhaol tymor hir
4. Cyfrannu at newid patrymau mewnfudo/allfudo tros dro neu'n barhaol	Cadarnhaol parhaol
5. Newid strwythur oed y gymuned	Cadarnhaol tymor hir
6. Cynyddu/leihau tensiynau cymdeithasol	Cadarnhaol
Ansawdd Bywyd	3 Niwtral
7. Effaith ar iechyd pobl trwy gynyddu risg salw a gwneud bywyd yn ddrytach	Niwtral
8. Effaith ar fwynder ardal	Niwtral
9. Bygythiad o droseddu/trais yn y gymuned	Niwtral
Ffactorau Cymunedol	+4 Cadarnhaol/ 1 Niwtral
10. Effaith ar fusnesau lleol	Cadarnhaol tymor hir
11. Effaith ar swyddi lleol	Cadarnhaol tymor hir
12. Mwy o amrywiaeth economaidd	Cadarnhaol tymor hir
13. Effaith ar lefelau cyflog lleol	Cadarnhaol tymor hir
14. Effaith ar bris cyfartalog tai	Niwtral
Cyflenwad Seilwaith	+5 Cadarnhaol/ 1 Niwtral
15. Effaith ar ysgolion lleol	Cadarnhaol tymor hir
16. Effaith ar wasanaethau gofal iechyd	Cadarnhaol tymor hir
17. Effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol	Cadarnhaol tymor hir
18. Tensiynau cymdeithasol	Niwtral
19. Newidiadau i'r traddodiad/diwylliant Cymraeg lleol	Cadarnhaol tymor hir
20. Effaith ar grwpiau gwirfoddol	Cadarnhaol tymor hir

Daw'r dyfarniad sgôr cronuss i **15 pwynt cadarnhaol** o ran effaith ar y Gymraeg, 5 niwtral, a dim effeithiau negyddol. Nid yw hyn yn annisgwyl mewn gwirionedd, o gofio mai darlledwr Cymraeg yw S4C gyda phob un o'r 50-55 swyddi a adleolir yn gofyn am sgiliau Cymraeg hanfodol. Yn adran 4 isod cyflwynir y casgliad mai demograffeg iaith tref Caernarfon, Arfon, Gwynedd, a Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynrychioli'r cyfres gorau posibl o gyfleoedd i S4C geisio cryfhau ac atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith y gymuned a'r farchnad lafur - yn y tymor byr a hir.

O edrych yn wrthrychol ar ganfyddiadau'r ardrawiad iaith, down i'r un casgliad am yr effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Lle mae'n annos datgan barn bendant yw a fydd yr effeithiau cadarnhaol yma yn rhai tymor hir ai peidio. Ond does dim gwadu fod y mwyaf a holwyd yn rhagweld effeithiau o'r fath. Mae'n debyg y byddai hynny yn ddibynnol i raddau helaeth iawn ar raddfa llwyddiant datblygu hwb diwydiant creadigol yn yr ardal, ond un casgliad amlwg yw y byddai adleoli Pencadlys S4C i Gaernarfon yn gatalydd allweddol at gyflymu hynny'n ymarferol ac at gynnal a chodi statws a phroffil y Gymraeg trwy atgyfodi cyfleon newydd i bobl ifanc Cymraeg fentro i sector newydd, fel oedd yn bodoli yn yr ardal dros ugain mlynedd a mwy yn ôl.

O graffu'n fanylach ar y canfyddiadau, gwelwn mai yn yr agweddau poblogaeth, cymunedol a seilwaith y mae'r effeithiau cadarnhaol sy'n tanlinellu'n briodol mai oherwydd dwysedd a niferoedd o siaradwyr Cymraeg y mae'r iaith yn parhau'n rhan greiddiol o wead y gymdeithas, gyda chlystyrau o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith bod dydd, hynny yw yn briod iaith yr ardal ddaearyddol, yn perthyn i'r diriogaeth. Adlewyrchiad pellach o hynny yw'r effeithiau cadarnhaol cymunedol ar fusnesau, swyddi, yr economi a lefelau cyflog, yn ogystal ag ar ysgolion, gwasanaethau lleol a diwylliant cynhenid. Byddai'r buddion ieithyddol yn rhai i'r ardal ddaearyddol ond hefyd i ddeilydd swyddi S4C fyddai'n dewis adleoli i'r Gogledd Orllewin. Er fod demograffeg ieithyddol Caerdydd wedi cynyddu dros y 20-30 mlynedd olaf, parhau'n iaith ymylol (11% trwy'r sir) gyda'i pheuoedd penodol y mae'r Gymraeg yn sir prifddinas Cymru.

Mae'n gwbl briodol hefyd cyfeirio at y ffaith mai dyma'r ardrawiad iaith mwyaf cadarnhaol o bell ffordd i Gweriniaeth ei chynnal dros gyfnod o 11 mlynedd a mwy na 40 ardrawiad iaith. Mae hynny i raddau amlwg oherwydd fod y datblygiad yn ieithyddol gymhathol trwy fod wedi ei leoli mewn ardal sy'n parhau o hyd yn ieithyddol gadarn ond sydd yn arddangos nodweddion o ddirywiad neu fregustra graddfa fach. Mae felly yn cynnig cyfleoedd cyffrous ac unigryw i roi hwb i gyflwr a statws y Gymraeg trwy ddatblygiadau economaidd a hyrwyddo marchnad lafur Gymraeg. Dyma yr union fath o hwb sydd ei angen i'r ardal ers Cyfrifiad 2011, sydd hyd yma heb arwain at ddim datblygiad na pholisi bwriadus i geisio cynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg. Ni ellir diogelu'r Gymraeg yn genedlaethol nac yn lleol heb ymyrraeth trwy fuddsoddiad o'r fath. Yn y Gogledd Orllewin yr hwb ieithyddol orau fyddai cynyddu'r farchnad lafur Gymraeg fyddai'n cynnig swyddi da a chyfrannu at geisio atal y llif o allfudo pobl ifanc o'r ardal i chwilio am waith.

4. Y Gymraeg

(i) Caernarfon

Wadiâu Caernarfon – Cyfrifiad 2011	% siaradwyr Cymraeg
% siaradwyr Cymraeg Caernarfon	85.6%
% siaradwyr Cymraeg wardiau Caernarfon:	
• Peblig • Cadnant • Seiont • Menai	87.4% 86.2% 85.3% 83.9%
% preswylwyr Caernarfon a aned yng Nghymru:	
• Peblig • Cadnant • Seiont • Menai • Cronnus	88.8% 86.7% 85.1% 82.8% 85.8%

Yn unigol a chronnus mae'r ffigyrau yn cadarnhau mai Caernarfon yw tref Cymreiciaf Cymru, gyda dwysedd a mas critigol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead beunyddiol y dref – yn iaith y cartref, y stryd, y siop, buarth a dosbarth Ysgol ac yn y gweithle. Mae iddi statws fel priod iaith pob dosbarth cymdeithasol a pheuoedd defnydd cyflawn. Er hynny, gwelodd y dref ddirywiad yn y canran rhwng 2001 a 2011 sef -0.5% (neu o 86.1% i 85.6%). Mae patrwm o ddirywiad ieithyddol graddol ar waith yma ond mae modd ei arafu a'i atal trwy gynllunio bwriadus.

(ii) Ardal Arfon

Cymunedau Arfon fesul grwpiau canran siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011)

Grwpiau % siaradwyr Cymraeg	Nifer cymunedau	Niferoedd o ran poblogaeth
Nifer cymunedau 80%+	4	15,682
Nifer cymunedau 70% - 79%	6	19,934
Nifer cymunedau 60% - 69%	3	5,660
Nifer cymunedau 50% - 59%	2	2,905
Nifer cymunedau 49% neu lai	1	16,358
Cyfanswm cymunedau	16	
Nifer a % cymunedau Arfon welodd gynnydd ymhlith siaradwyr Cymraeg (2001-2011)	5 (31.2%)	
Nifer a % cymunedau Arfon welodd ddirywiad ymhlith siaradwyr Cymraeg (2001-2011)	11 (68.8%)	
% siaradwyr Cymraeg Ardal Arfon	66%	
% preswylwyr Arfon a aned yng Nghymru	70.1%	


O graffu ar ardal Arfon dengys bod 66% o'i thrigolion yn gallu siarad Cymraeg, gyda dwysedd siaradwyr Cymraeg yn uchel iawn mewn 10 cymuned (hynny yw, uwchlaw'r trothwy 70%+ a ddefnyddir i ddynodi fod iaith yn rhan o wead cymdeithas ac yn iaith feunyddiol). Dim ond 3 cymuned sydd â chanran islaw 59%. Beth sydd hefyd yn amlwg yw fod 2 batrwm ieithyddol ar waith yn Arfon sef cynnydd mewn lleiafrif o gymunedau a gostyngiad ymhlith y mwyafrif, ond bod y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn parhau'n uchel. Oherwydd hynny, mae modd adfer os nad gwyrddroi'r sefyllfa.

Cymuned	% yn gallu siarad Cymraeg, 2001	% yn gallu siarad Cymraeg, 2011	Cyfanswm y boblogaeth*	Newid (pwyntiau canran) o 2001 i 2011
Llanllechid	65.7	67.5	889	1.8
Waunfawr	78.1	79.5	1,427	1.4
Llandwrog	77.0	77.7	2,539	0.7
Bethesda	77.0	77.5	4,735	0.5
Llanrug	82.1	82.4	2,911	0.3

* KS101EW Poblogaeth breswyl arferol, Cyfrifiad 2011(Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Mewn cyferbyniad â dirywiad yn y canran o siaradwyr Cymraeg y cadarnleoedd Cymraeg (Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin), mewn 5 cymuned (neu llai na thraean) yn Arfon gwelwyd twf bychain yn y canran o siaradwyr Cymraeg. Ar y cyfan mae hyn hefyd yn groes i'r patrwm cenedlaethol – ag eithrio yn Ne Ddwyrain Cymru lle roedd y canrannau blaenorol yn 2001 yn isel (llai na 10% ar lefel sirol), a Chaerdydd. Mewn 4 o'r 5 cymuned mae'r canran o siaradwyr Cymraeg yn gyffyrddus uwchlaw'r trothwy 70% angenrheidiol i sicrhau cynladwyedd ieithyddol. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw mai cymunedau poblog ydynt (megis Llandwrog, Llanrug a Bethesda) o gymharu dyweder â nifer o gymunedau tebyg yn ardal Dwyfor. Mae'r map isod yn cyfleu'r sefyllfa.

Map 5: Newid yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul AGEHI, 2001 i 2011 (a)



Cymuned	% yn gallu siarad Cymraeg, 2001	% yn gallu siarad Cymraeg, 2011	Cyfanswm y boblogaeth*	Newid (pwyntiau canran) o 2001 i 2011
Caernarfon	86.1	85.6	9,615	-0.5
Llanwnda	82.5	81.6	1,994	-0.9
Llandygái	68.6	67.5	2,487	-1.1
Llanllyfni	80.5	79.2	4,135	-1.3
Bontnewydd	84.8	82.6	1,162	-2.2
Llanddeiniolen	78.5	76.2	5,072	-2.3
Pentir	61.7	58.7	2,450	-3.0
Llanberis	80.6	74.7	2,026	-5.9
Y Felinheli	71.8	64.3	2,284	-7.5
Beddgelert	60.4	52.0	455	-8.4
Bangor	46.7	36.4	16,358	-10.3

* KS101EW Poblogaeth breswyl arferol, Cyfrifiad 2011(Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Patrwm mwy amlwg a chyffredin ymhlith mwyafrif cymunedau Arfon yw **dirywiad ieithyddol arwyddocaol** mewn nifer o bentrefi, tref Caernarfon a dinas Bangor – ardaloedd mwyaf poblog Arfon. Er bod Caernarfon yn parhau'n gadarnle naturiol i'r Gymraeg mae'r iaith yn wynebu bygythiad. Felly hefyd mewn pentrefi cyfagos megis Y Bontnewydd, Llanddeiniol a Phentir sydd yn y gorffennol heb apelio i newydd-ddyfodiaid. Mae graddfa'r dirywiad yn Y Felinheli, Beddgelert ac yn arbennig dinas Bangor yn arwyddocaol ac yn bryderus. Mae'n awgrymu fod effeithiau marchnad lafur Seisnig/ amlieithog ym Mangor a thwristiaeth yn Llanberis a Beddgelert yn arwain at fewnfudo pobl di-Gymraeg. Meddai Iwan Edgar:

“Dinas Bangor yw un o'r mannau amlycaf i geisio rhwystro dirywiad cynyddol gan ei bod ar goridor yr A55 yn nwyrain ardal Gymraeg bwysicaf y gogledd. Dylid sicrhau fod y Gymraeg yn dod yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth iechyd a'r brifysgol yn y ddinas, sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn fewnol yn gwbl Saesneg. Dylid hefyd ystyried adleoli sefydliadau o Gaerdydd i Wynedd. S4C fyddai'r amlycaf un y dylid ei adleoli.”²

Tra byddai adleoli i Gaernarfon heb os yn cynnig y cyfle gorau i'r Gymraeg yn y dref, byddai hefyd yn gaffaeliad o ran ceisio tacio'r dirywiad ieithyddol graddol sydd ar waith yn yr ardal ehangach. Beth sy'n galonogol yw mai dirywiad o sefyllfa ieithyddol uchel sydd yma, gan olygu fod yr iaith yn parhau'n briod iaith i raddau helaeth. Mae felly yn haws ceisio arafu, atal a gwyrdroi'r dirywiad graddol hwn nac mewn ardaloedd eraill lle mae dirywiad graddfa ddaearyddol mawr (hynny yw, sirol) a chyflym eisoes ar droed. Cymaint annos yw ceisio atalllfir o'r fath ond yma mae arfau cynnal a throsglwyddo a chymell iaith yn parhau'n gadarn law yn llaw â pholisïau sirol sy'n rhoi hwb a statws i'r iaith – yn arbennig polisi iaith addysg a bodolaeth marchnad lafur Gymraeg sylweddol Cyngor Gwynedd. Byddai adleoli S4C felly yn gallu bod yn ganolog at geisio lleihau'r dirywiad hwn ac arwain at dwf neu gynnydd pellach. Byddai ail gadarnhau proffil ieithyddol yr ardal yn fuddiol i Ogledd Orllewin Cymru ond yn genedlaethol hefo arth gynllunio adfywiad yr iaith.

(iii) Gwynedd

Gwynedd (Cyfrifiad 2011)

% a nifer siaradwyr Cymraeg sir Gwynedd	65.4% neu 77,000
% preswylwyr Gwynedd a aned yng Nghymru	68.8%
Cymuned hefo'r % uchaf o siaradwyr Cymraeg...yn sirol a chenedlaethol	86.1% Caernarfon
Cymuned hefo'r % isaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd	28.3% Arthog
Nifer a % cymunedau 70%+ siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd (10 yn Ynys Môn a 2 yng Nghonwy)	27 allan o 39 neu 69.2%

Er gwaetha'r darlun o ddirywiad ieithyddol ond o bwynt uchel yn Arfon mae canran a nifer siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn parhau'n uchel – y ganran sirol fwyaf yng Nghymru. Yng Ngwynedd mae bron 70% o'r cymunedau 70%+ i'w canfod. Mae felly yn llawn haeddu'r disgrifiad o gadarnle'r Gymraeg, gyda dwysedd/mas critigol o siaradwyr Cymraeg. Er hynny wynebodd y sir ddirywiad o -3.6% allai siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, sy'n gyson â phatrwm pob Cyfrifiad blaenorol dros dymor hir. Felly er gwaetha'r ffaith bod mas critigol daearyddol yma graddol golli ei hangorfa naturiol y mae'r Gymraeg yng Ngwynedd, gan adlewyrchu sefyllfaoedd ieithyddol siroedd eraill ar hyn o bryd – megis Ceredigion, Caerfyrddin ac Ynys Môn. Mewn geiriau eraill i'r un cyfeiriad y mae Gwynedd yn mynd a gweddill siroedd y cadarnleoedd y Gymraeg. Dim ond trwy ymyrraeth y mae modd ceisio gwyrddroi'r patrwm hwn.

Polisi iaith Ysgolion Gwynedd

“Cynradd: Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd CA1. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Ysgolion Uwchradd Gwynedd

Uwchradd: Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol, sef 3+ , ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.”

Amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg

“Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Er mai nod cyffredinol y polisi yw dwyieithrwydd, mae pwyslais yn cael ei roi ar y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar (hyd at ddiwedd CA1) er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd mwyafrif yr ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol ar ddiwedd CA1. Yn y cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion gynllunio er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.

Mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf yn ysgolion cynradd y sir.”

Y 4 mesurydd oedd:

Graddau Lefel cyrhaeddiad academaidd Estyn *	% disgyblion o gartrefi Cymraeg	Defnydd iaith Gymdeithasol disgyblion	% siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r dalgyllch
--	------------------------------------	---	---

Noder: Ymhob achos defnyddir 70% (a Gradd 2 Estyn) fel gwaelodlin sy'n cyfateb i'r disgrifiad 'da iawn' i olygu 'meithrin cynladwyedd ieithyddol academaidd a chymdeithasol'. Golyga bod angen i'r 4 maen prawf isod fod yn cyfateb i neu uwchlaw'r gwaelodlin ieithyddol er mwyn bod yn iach neu gynaliadwy Defnyddiwyd y diffiniadau canlynol:

70%+ yn Dda iawn	69% - 65% yn Dda	64% - 55% yn weddol	54% - 45% yn wael	44% neu lai yn wael iawn
---------------------	---------------------	------------------------	----------------------	-----------------------------

Ysgol	% iechyd ieithyddol	Disgrifiad o'r cyflwr ieithyddol
Brynrefail	86.1%	Da iawn
Syr Hugh Owen, Caernarfon	84.9%	Da iawn
Dyffryn Nantlle, Penygroes	75.6%	Da iawn
Dyffryn Ogwen, Bethesda	65.5%	Da
Tryfan/Friars, Bangor	43.3%	Gwael iawn

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd - Gweriniaith (2011)

Yn genedlaethol Ysgolion Gwynedd sydd fwyaf cynhyrchiol a llwyddiannus o ran creu dinasyddion sy'n meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys. Mae gwaith ymchwil cynhwysfawr gan Gweriniaith ers 2008 ac Estyn wedi sefydlu mai un o rinweddau pellach y polisi yw ei allu i greu disgyblion Cymraeg ail iaith yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf rhugl, sy'n gwneud y pwnc fel siaradwyr Cymraeg cynhenid. Byddai plant a phobl ifanc staff S4C fyddai'n adleoli I Wynedd yn elwa o'r ddarpariaeth ieithyddol addysgol orau yng Nghymru, ac yn debygol iawn o fod yn mynychu Ysgol lle mai Cymraeg yw iaith y buarth.


(iv) Gogledd Orllewin

Niferoedd 3 oed + sy'n gallu siarad Cymraeg fesul sir Gogledd Orllewin Cymru (Cyfrifiad 2011)

Sir	Nifer a % yn gallu siarad Cymraeg	Nifer a % ddim yn gallu siarad Cymraeg	Cyfanswm sirol
Gwynedd	77,000 (65.3%)	40,789 (34.6%)	117,789
Ynys Môn	38,568 (57.2%)	28,835 (42.7%)	67,403
Conwy	30,600 (27.4%)	81,124 (72.6%)	111,724
Is-gyfanswm Gogledd Orllewin	146,168 (49.2%)	150,748 (50.8%)	296,916

Mae 50% o boblogaeth breswyl y Gogledd Orllewin yn siaradwyr Cymraeg (hynny yw, 1 o bob 2 berson). Os mai yn y Gogledd Orllewin mae'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, onid dyma'r ardal mwyaf naturiol iddi adleoli ei Phencadlys os yw S4C yn dymuno gosod ei hunain yng nghalon cenedl?

Felly gellir haeru ar seiliau cadarn bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd Orllewin yn golygu bod mwy o'r ardal honno felly yn wylwyr S4C nac unrhyw ardal neu ranbarth arall, sy'n golygu mai yma mae gynulleidfa graidd y sianel, yng nghalon Cymru. Ategir hyn gan y map isod sy'n dangos mai yng Ngwynedd a Môn y mae'r cyfran sirol uchaf yn gallu siarad Cymraeg – dros 55%.



(v) Trosglwyddiad iaith yn y cartref

Nifer plant 3 i 4 oed, yn ôl iaith

Sir	Cartref cwpl 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol	Cartref cwpl 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg	Pob cartref
Gwynedd	90%	81.5%	63.4%	34.6%	73.8%
Ynys Môn	80.1%	60.8%	47.5%	22.1%	53.8%
Conwy	74%	46.2%	36.6%	19.5%	32.5%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2601

Mae 'Pob cartref' yn cynnwys hefyd teuluoedd un rhiant lle ceir 2 neu ragor o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Gwynedd sydd a'r cyfraddau trosglwyddo iaith gorau ymhob categori – sy'n cyfrannu at greu dwysedd poblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Mewn geiriau eraill mae'r sir yn atgynhyrchu mas critigol o siaradwyr Cymraeg yn naturiol yn y cartref cyn dechrau addysg statudol. O glystyru Gwynedd, Môn a Chonwy mae'r gyfradd yn 53.4% sydd yn uwch na'r canran o bob oed sy'n gallu siarad Cymraeg. Tystiolaeth pellach o hyfywedd ieithyddol.

Addysg a Hyfforddiant

Niferoedd sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg rhwng 5 ac 19 oed fesul sir ac ardal

Grŵp Oed	Gwynedd	Ynys Môn	Conwy	Is-gyfanswm Gogledd Orllewin	Cyfanswm Gogledd Orllewin
5-9 oed	4,823	2,203	1,837	8,863	30,521
10-14	5,844	2,786	2,804	11,434	
15-19	5,517	2,463	2,244	10,224	

O ran niferoedd plant a phobl ifanc sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn sylweddol ac yn adlewyrchu cyflwr iach o'i chymharu a'r canran sydd ond yn gallu siarad y Gymraeg yn unig sydd yn arwydd o ddifffyg statws, agwedd a defnydd o iaith.

(vi) Hyfedredd llawn yn y Gymraeg (3 oed a throsodd â sgiliau yn y Gymraeg)

Nid yn annisgwyl, o ran caffael y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, y Gogledd Orllewin ddaw i'r brig cenedlaethol unwaith yn rhagor:

Gwynedd		Ynys Môn		Conwy		Gogledd Orllewin	
65,921	56%	30,756	45.6%	23,063	20.6%	119,740	40.7%


Mae hyn yn arwyddocaol iawn o ran ystyried lleoliad gorau i geisio sicrhau y buddsoddiad gorau o ran darpar weithlu a gweithlu diwydiannau creadigol y dyfodol. Byddai'n dilyn i reswm mai adleoli i Gaernarfon fyddai'n rhoi'r siawns, posibilrwydd a'r cyfleoedd gorau ledled Cymru o ran ceisio denu, hyfforddi a chyflogi gweithlu i geisio diogelu dilyniant hirdymor i'r diwydiant creadigol Cymraeg.

Mae'n werth cyfeirio at lyfr Clive Betts, *Culture in Crisis* (Denbigh 1976): "Dyfed and Gwynedd, Which is heading for a fall?", tt.144-158 oedd yn haeru mai arwydd o ddifffyg gwerth ac agwedd at y Gymraeg sy'n esbonio'r bwlch cynyddol rhwng y rhai siaradai'r iaith Gymraeg yn unig o'i gymharu a'r rhai oedd hefyd yn gallu ei hysgrifennu a'i darllen. Nid felly'r sefyllfa yn y Gogledd Orllewin, lle mae'r iaith yn parhau'n rhan gyflawn a naturiol o wead cyfran helaeth o'i chymunedau.

"Mae'n bwysig i sefydliadau ddangos yn bendant eu bod yn gweithio dros Cymru gyfan, ac yn barod i leoli eu gweithwyr yn agos i gymunedau y De a'r Gogledd."

(vii) Cyfrifiad 2011

Ers Cyfrifiad 2011 wynebodd y Gogledd Orllewin ostyngiad o -8.5% yn y canran o siaradwyr Cymraeg (Gwynedd -3.6%, Môn -2.9% a Chonwy -2%) Er hynny dyma'r ardal sydd a'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg o hyd, ond bod hynny yn gostwng yn sgil mewnlifiad di-Gymraeg ac allfudiad pobl ifanc dwyieithog ar sail economaidd. Gogledd Orllewin Cymru yw cadarnle mwyaf y Gymraeg o ran dwysedd, mas critigol, defnydd ffurfiol ac anffurfiol a statws, ond heb ymyrraeth ganolog a lleol bydd y sefyllfa honno yn dirywio a newid dros amser gan ddilyn trywydd siroedd y Gorllewin (Ceredigion a Chaerfyrddin). Ond, o ran ceisio lleihau patrwm o ddirywiad iaith mae'n haws ceisio tacio hynny mewn ardal lle mae graddfa'r dirywiad yn llai ac yn fwy graddol, sy'n golygu bod cyfradd llwyddiant yn uwch, yn arbennig o gofio fod cyfres o amodau ffafriol yn gwarantu cyfradd llwyddiant uwch.



(viii) Polisiau strategol

Ar lefel strategol daw blaengaredd Cyngor Gwynedd i'r fei o ran hyrwyddo'r iaith. Adlewyrchir hynny yn ei *Gynllun Iaith Gymraeg* statudol sy'n cyfeirio at 2 bolisi strategol:

- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru

- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor.

Rhoddir cryn bwys yn *Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru* (2009) ar y dimensiwn ieithyddol:

“Gweledigaeth ar gyfer ardal Eryri a Môn

Amgylchedd ffisegol a naturiol o ansawdd uchel yn cynnal economi sy'n seiliedig ar wybodaeth a diwylliant, economi a fydd yn gymorth i'r ardal gynnal ei chymeriad unigryw, i gadw a denu pobl ifanc yn ôl, ac i gynnal yr iaith Gymraeg’

“Datblygu prosiectau i gryfhau a thynnu budd economaidd o'r iaith Gymraeg, ac o ddiwylliant, hanes ac amgylchedd Gogledd Orllewin Cymru.”


Cyfeiria'n benodol at roi blaenoriaeth i sectorau sy'n manteisio ar gryfderau presennol a nodweddion arbennig Gogledd Orllewin Cymru gan enwi y diwydiannau creadigol ac artistig, a'r iaith Gymraeg. Wrth gyfeirio at ffocws Menai noda mai un o'r blaenoriaethau yw i

“Datblygu prosiectau i gryfhau a thynnu budd economaidd o'r iaith Gymraeg, ac o ddiwylliant, hanes ac amgylchedd Gogledd Orllewin Cymru.”

Wrth gyfeirio at Gogledd Orllewin Cymru – Eryri a Môn noda diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru (2008)

‘A high-quality natural and physical environment supporting a cultural and knowledge-based economy that will help the area to maintain and enhance its distinctive character, retain and attract back young people and sustain the Welsh language’

Mae'r map isod hefyd yn amlinellu'r ddarpariaeth addysgiadol ac yn cadarnhau statws ieithyddol yr ardal.



“The map shows the spread across Wales in respect of the percentage of population aged 3 and above who speak Welsh, overlaid with the location of Welsh medium primary and secondary schools, using small and large dots respectively. The areas with the highest rates of Welsh speaking (those above 65 per cent) are coloured darker red, and are found in North West Wales, whilst the lowest rates (those under 20 per cent) are coloured lighter blue, and are generally found in South East Wales and the areas bordering England.”

% yn gallu siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran - Gwynedd, 2011

73	91.4	93.3	72.3	51.4	67.7	70.1	69.5	67.1	64	61.3	58.3	54.4	53.7	57.9
3-4	5-9	10-14	15-19	20-24	25-29	30-34	35-39	40-44	45-49	50-54	55-59	60-64	65-69	70-74

Dengys fod canrannau pob grŵp oed yng Ngwynedd uwchlaw'r rhicyn 50% sy'n tanlinellu bod trwch neu dwysedd y boblogaeth yn siarad Cymraeg. O glystyru grwpiau oed addysg statudol ac addysg bellach/ uwch (melyn) dengys fod 77.1% yn gallu Cymraeg – y canran cenedlaethol uchaf.

Gyda'r Gymraeg a phroffil, defnydd a dwysedd uwch o fewn y boblogaeth, byddai dyfodiad Pencadlys S4C i Gaernarfon yn gallu ategu, dilysu a gweithredu fel hwb pellach, yn arbennig o ran hyrwyddo marchnad lafur Gymraeg, cyfleon gyrfa i siaradwyr Cymraeg, a chodi statws, bri a gwerth economaidd i'r iaith.

Dengys hefyd cyfundrefn addysg statudol Gwynedd, ac yn arbennig ei bolisi iaith addysg yn gweithredu fel pwerdy iaith trwy gaffael sgiliau Cymraeg i 86% o'u holl ddisgyblion, newyddion da iawn i'r diwydiant creadigol Cymraeg wrth ystyried sut orau i geisio sicrhau dilyniant gweithlu i'r dyfodol. Golyga hefyd y byddai hyn at 55 unigolyn/teulu fyddai'n symud i'r ardal yn gallu elwa yn fwy o fyw bywyd beunyddiol trwy'r Gymraeg, sydd ddim yn bosibl i'r un graddau unman arall. Lle mae'r pwerdy yn methu ydy pan mae pobl ifanc yn gadael Ysgol i chwilio am waith. Oherwydd diffyg economi leol gref fe'u gorfodir i adael yr ardal, a Chymru i chwilio am gyflogaeth. Mae gwaith ymchwil Dr Delyth Morris wedi amlygu hynny ac yn tanlinellu'r gwaedlif o allfudo economaidd sy'n digwydd o Gymru pob blwyddyn.

(ix) **Marchnad Lafur Cymraeg a gwerth economaidd i'r iaith**

Yn ogystal, ar sail cais rhyddid gwybodaeth (Hydref 2013, Gweriniaith) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12 dengys bod 97.7% o weithlu Cyngor Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r unig Gyngor sydd â gweinyddiaeth fewnol Gymraeg. Mae arwyddocâd pwysig i hyn sef bodolaeth marchnad lafur Gymraeg, sydd yn ymarferol bosibl oherwydd polisi iaith addysg y sir a bod gwerth economaidd i'r iaith. Y canlyniad yw creu statws a chymhelliad i unigolion barhau i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, oherwydd gall arwain at gyfleoedd cyflogaeth a buddion economaidd mewn ardal lle mae diweithdra a difreintedd yn amlwg – gweler ardrawiad economaidd JOP Consulting. Yn ei dro felly mae creu defnyddioldeb i'r Gymraeg yn y gweithle yn cymell cyfradd uwch o ddisgyblion y sir i barhau gyda'r Gymraeg ar ôl gadael Ysgol.

Dros gyfnod o 20 mlynedd a mwy saerniwyd y diwydiant creadigol yn y Gogledd Orllewin, yn ystâd ddiwydiannol Cibyn ar gyrion Caernarfon. Byddai adfywio'r sector unwaith yn rhagor felly yn golygu ail greu'r cyswllt a'r dilyniant a'r gorffennol ond hefyd yn cyfrannu at leihau yr allfudo i Gaerdydd o siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd.

Byddai dyfodiad Pencadlys corff sy'n gweinyddu'n bennaf trwy'r Gymraeg yn cydweddu a'r norm yn ardal Caernarfon ac yn fodd pellach i atgyfnerthu gwerth economaidd y Gymraeg a chreu cyflogaeth gwirionedd i siaradwyr Cymraeg, yn arbennig gan y byddai dyfodiad S4C yn gatalydd allweddol i dwf yr hwb diwydiant creadigol yn Noc Fictoria.

Byddai unrhyw gynllun allai roi mwy o obaith am waith lleol da i siaradwyr Cymraeg i'w groesawu, ac yn gyfraniad tuag at atal y llif sy'n gadael yr ardal i chwilio am waith y tu allan i Gymru. Mewn geiriau eraill, petai marchnad lafur Gymraeg yn fwy lliaws byddai'n llwyddo i raddau mwy i atal yr allfudo economaidd presennol.

5. Dadansoddiad o'r cyd-destun ieithyddol

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn cynigiwn y dadansoddiad canlynol:

- Cymraeg yw **priod iaith** tref Caernarfon ers canrifoedd (85%). Er bod patrwm o ddirywiad ieithyddol ar waith yma Caernarfon sy'n cynnig y cyfle gorau i geisio adfer y Gymraeg yn lleol a chenedlaethol gan y byddai adleoli Pencadlys S4C i Gaernarfon yn cynhyrchu'r gwaddol ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol mwyaf.
- Cefnogi, cynyddu ac ymestyn strategaeth creu economi sy'n ddibynnol ar farchnad lafur Gymraeg sydd ei hangen i atgyfnerthu Cymreictod tref Caernarfon Dyma grud naturiol marchnad lafur Cymraeg ac mae dirfawr angen ei ymestyn, yn arbennig mewn cyfnod o gynni economaidd sy'n arwain at fwy o allfudo pobl ifanc dwyieithog o'r ardal i chwilio am waith. Mae effeithiau creu marchnad lafur Gymraeg yn cynnwys:
 - bwydo unigolion sydd yn mynd drwy addysg i swyddi lle maent yn defnyddio'u Cymraeg
 - cryfhau cymunedau a rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg ar draws Gwynedd
 - cryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob sector
 - lleihau allfudo ynghyd â lleihau newidiadau demograffeg niweidiol
 - codi statws a gwerth economaidd y Gymraeg sydd yn ei dro yn cynnal yr effaith cadarnhaol ar raddfeydd trosglwyddo iaith ac addysg Gymraeg/ddwyieithog

- O ran lledaenu gwerth economaidd swyddi cyrff cenedlaethol Cymraeg mae'n werth nodi, y tu hwnt i swyddfa fechan ('satellite') S4C a Chomisiynydd y Gymraeg, nad yw pencadlys yr un corff cenedlaethol yng Nghaernarfon. O gofio maint a sylfaen sgiliau dwyieithog y pwll o ddarpar weithlu sydd yma, mae tangynrychiolaeth amlwg yn bodoli, sy'n golygu bod rhaid i bobl ifanc y sir allfudo o'r ardal, sy'n cyfrannu at y patrwm o ddirywiad ieithyddol.
- O 4 sir cadarnle'r Gymraeg, Gwynedd sydd wedi dal ei thir orau (-3.6%). Mae'r Gymraeg yn parhau'n briod iaith y sir ond mewn mater o 20-30 mlynedd bydd shifft ieithyddol wedi gweddnewid hynny yn barhaol. Mewn geiriau eraill, mae'n unfed awr ar ddeg i geisio diogelu'r Gymraeg yng Ngwynedd, ac o'i diogelu yma mae'n gweithredu fel angor neu *byffer* i'r Gymraeg ledled Cymru, fel pwerdy iaith generig (cartref, ysgol, gweithle a chyflogaeth).
- Ar hyn o bryd mae datgymaliad amlwg rhwng canolbwynt diwydiant darlledu Cymraeg yng Nghaerdydd a'r gynulleidfa graidd yng Gogledd Orllewin Cymru. Er enghraifft, o ran y cyfran genedlaethol o wylwyr rhaglenni S4C roedd siâr gwyllo'r Gogledd yn 2013 yn cyfateb i Rownd a Rownd – 68%, Ysbyty Gwynedd – 65%, Codi Hwyl – 60% a Sioe Tudur Owen – 66%. (Ffynhonnell: *Barb, cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, Cyflwyniad PowerPoint gan S4C Mawrth 2013*). Mewn cyfnod o weddnewid technolegol cyflym a chystadleuaeth frwd am wylwyr mae angen unioni hynny er mwyn atgyfnerthu'r diwydiant Cymraeg.
- Gogledd Orllewin Cymru sydd a'r nifer a'r canran uchaf o bobl ifanc dwyieithog all gyflenwi anghenion staffio'r diwydiant creadigol i'r tymor hir. Mae hynny'n allweddol o ran cynnal hyfywedd y diwydiant, cynnydd marchnad lafur Cymraeg a chyfrannu at atal yr allfudo economaidd dybryd sy'n llesteirio cynaladwyedd y Gymraeg. Mae synnwyr amlwg mewn adleoli i ardal all roi'r dididend gorau o ran gweithlu a chynulleidfa graidd.
- Ers cyhoeddi canlyniad Cyfrifiad 2011 nid oes unrhyw ddatblygiad na pholisi wedi ei fabwysiadu gan Lywodraeth ganol i geisio cynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg yn y Gogledd Orllewin. Nid oes yr un sefydliad cenedlaethol Cymraeg o bwys wedi adleoli yma, mewn cyferbyniad â threfi a dinasoedd eraill. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am greu cenedl ddwyieithog, mae angen gweithredu i geisio diogelu ac atgyfnerthu cadarnle mwyaf y Gymraeg. Heb wneud hynny, mae ymdrechion mewn ardaloedd eraill yn mynd i fod yn llai effeithiol oherwydd bod bregustra ieithyddol mwy eisoes ar waith.
- Mae'n allweddol sylweddoli **nad** yw'r colledion ieithyddol yn yr ardaloedd Cymraeg yn cael eu gorbwyso gan enillion mewn ardaloedd eraill, dyweder siroedd Gwent, a hynny oherwydd nad oes peuoedd digonol i gynnal yr iaith fel iaith gymunedol.
- Mae'n briodol rhoi cydnabyddiaeth dyledus i bwysigrwydd ardaloedd lle mae cyfran sylweddol yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd rhaid cydnabod nad oes atgyfnerthu'r Gymraeg yng ngweddill Cymru os yw'r cadarnleoedd yn chwalu. Mae cynnal a chryfhau ac adfer cadarnleoedd yn rhan gwbl allweddol o'r gwaith o greu cenedl ddwyieithog.
- Bodola consensws fod modd adfer y Gymraeg yn y Gogledd Orllewin ond bod angen ymyrraeth y wladwriaeth ac yn arbennig hwb economaidd i gyflawni hynny.

“Rydyn ni bron â bod mewn sefyllfa o fod angen strategaeth sydd ddim yn strategaeth iaith am nad yw'r sefyllfa mewn gwirionedd yn fater ieithyddol pur ond yn ymwneud mwy â chynaliadwyedd cymdeithasol-economaidd.”

(Yr Athro Harold Carter, Golwg Ionawr 27, 2011)

6. Diwylliant

Mae gan Caernarfon, Arfon a Gwynedd/Môn draddodiad hir o fwrlwm diwylliannol, gyda llawer iawn ohono yn digwydd yn naturiol trwy'r Gymraeg gan adlewyrchu demograffeg ieithyddol yr ardal. O graffu'n benodol ar ardal Arfon gwelwn bod darpariaeth ac ystod eang ar droed.

Cyfleusterau Arfon

Caernarfon	Y Galeri, Cwmni Da, Rondo Media, Griffilms, Theatr Seilo, Cofis bach a mawr, Clwb 4 a 6 – gigs cerddorion Cymraeg nosweithiau Iau, Clwb Hendre, Sbarc, Recordiau Sain (Llandwrog).
Bangor	Canolfan Pontio (celfyddydau, ffilm, theatr, cerddoriaeth), Rownd a Rownd (Porthaethwy, YM) BBC Bangor Neuadd Hendre, Clwb y Rheilffordd, Prifysgol Bangor.
Parc Menai	CAST (clwstwr TG), C6 Partneriaeth diwydiant creadigol, Ysgol Glanaethwy, Canolfan Arbenigedd Coleg Llandrillo Cymru (Menai).

Un o nodweddion amlwg yr ardal yw'r bwrlwm o weithgareddau, digwyddiadau a gwyliau creadigol sy'n digwydd ym maes actio, theatr, cerdd, cynrychiadau; gyda chefnogaeth gref i weithgareddau Cymraeg yn y meysydd hyn. Mewn geiriau eraill mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth yn cyfateb ac yn bwydo oddi ar ei gilydd. Er enghraifft mae Y Galeri yn gartref sefydlog i Dawns i bawb, ITV Cymru, Tinopolisi, cylchgrawn Golwg, Cyfle cwmni Hyfforddi yn y diwydiannau creadigol, Cerdd Cymunedol Cymru a SBARC. Hefyd yn y dref mae cartref theatr Bara Caws, Gwyl Arall, Gwyl Gardd Goll a Gwyl Rhif 6 Portmeirion.

Mae gan Caernarfon, Bethesda a Blaenau Ffestiniog draddodiad hir o fwrlwm yn y sin roc Cymraeg – o ran cynhyrchu bandiau a chynulleidfa i Wyliau cerddorol. Mae'r ardal hefyd wedi cynhyrchu nifer fawr o actorion blaenllaw, Cyfarwyddwyr, technegwyr, gohebwy'r papurau newydd a chylchgronau Cymraeg.

Yn hanesyddol ac i'r presennol mae nifer fawr o gewri byd llenyddol Cymru wedi hanu o Arfon, Gwynedd a'r Gogledd Orllewin gyda nifer wedi ennill prif wobrwyl yn y Brifwyl. Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith fod cynifer o selogion yr Eisteddfod Genedlaethol yn drigolion Gogledd Orllewin.³

³ Arolwg Terry Stevens i ddyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol (2003)

Bydd agoriad Pontio ym Mangor ym mis Medi 2014 yn gaffaeliad mawr i'r ardal ac yn llenwi'r bwlch mawr a adawyd yn sgil cau Theatr Gwynedd. Mae cyfraniad Ysgol Glanaethwy i fyd actio, canu a dawns yn hysbys ledled Cymru a thu hwnt ac yn gyfranwyr mawr i gynhyrchiad cyfres boblogaidd iawn Rownd a Rownd a ffilmir ym Mhorthaethwy, Ynys Môn. Yma hefyd mae cartref Cwmni Theatr i blant a phobl ifanc Y Fran Wen.

Felly mae cryn ffocws yn yr ardal ar roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i fentro i fwrlwm diwylliannol ac mae sefydlu Partneriaeth C6 yn fodd effeithiol o drosglwyddo'r diddordeb hwnnw ymhellach i fyd addysg a hyfforddiant. Gan fod S4C a'r BBC yn rhan o'r bartneriaeth gall arwain ar gyfleoedd cyflogaeth gyda darparwyr hyfforddiant yn y maes megis Cyfle a Creative Skillset Cymru yn darparu cyrsiau amrywiol a rheolaidd i'r diwydiannau creadigol ac aml blatfform yn lleol trwy swyddfa Cyfle yng Nghaernarfon. Yn wir dyma gartref ysbrydol y cwmni a sefydlwyd yn fuan ar ôl sefydlu S4C i geisio taclo'r diffyg technegwyr Cymraeg yn y diwydiant. Nid ar hap iddo gychwyn yma cyn ymestyn ledled Cymru.

Addysg Bellach

Mae cyrsiau yn y diwydiant creadigol yng Ngholeg Menai yn cwmpasu:

- **L3 Diploma Estynedig Cyfryngau (Teledu a Ffilm)** sydd dros y dair blynedd ddiwethaf wedi denu cyfartaledd o 16 dysgwr yn flynyddol ar y flwyddyn gyntaf o gwrs dwy flynedd. Mae oddeutu 90 % o'r rhain yn mynd ymlaen i gwblhau eu hail flwyddyn a gadael gyda chymhwyster cyffelyb i 3 lefel A ac yn mynd ymlaen i unai Brifysgol o'i dewis neu i fyd gwaith. Mae oddeutu 70% o'r dysgwyr sydd ar y ddarpariaeth yma yn siaradwyr Cymraeg.
- **L3 Diploma Estynedig Cyfryngau (Gemau)** sydd yn derbyn cyfartaledd o 18 dysgwr dros y dair blynedd olaf ar y flwyddyn gyntaf. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn ddi-Gymraeg neu yn ddysgwyr gydag oddeutu 20% yn rhugl - gyda chanran helaeth o'r dysgwyr yn fechgyn! Eto mae'r rhain yn llwyddo yn eu hastudiaethau ac yn mynd ymlaen i Brifysgol neu fyd gwaith perthnasol.
- **Gradd Sylfaen Rhan Amser mewn Technoleg Creadigol** gyda sawl ffrwd gan gynnwys *Teledu a Ffilm* a *Cerddoriaeth*. Mae hwn yn gwrs ar gyfer rheiny sydd eisoes mewn gwaith ac mae cohort o oddeutu 15 ar hyn o bryd gyda chroestoriad ieithyddol oddeutu 50% yn rhugl yn y Gymraeg.

Addysg Uwch

Gyda'r drefn o fodiwlau ym Mhrifysgol Bangor, mae sawl llwybr gradd gwahanol, ond nodir isod restr o'r graddau llawn neu raddau ar y cyd (hanner a hanner) o'r Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau.

Daw tua thraean o'n myfyrwyr o Gymru a thua 50% yn siarad Cymraeg. Mae hanner y staff yn siarad Cymraeg, a'r gweddill yn ddysgwyr, gyda rhai yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae cyn fyfyrwyr yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau wedi dilyn gyrfaedd yn y meysydd canlynol:

- Newyddiaduraeth leol (yng Ngwynedd)
- Teledu (yng Ngwynedd)
- Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus (yng Ngwynedd a Chaerfyrddin)
- Technoleg Gwybodaeth (Cyngor Gwynedd)
- Cyrsiau pellach (cyfryngau ac ymarfer dysgu – un myfyriwr a raddiodd yn 2013 wedi ennill BAFTA Cymru, ac yn gwneud llawer o waith llawrydd tra'n astudio MA mewn gwneud ffilm.)

“Hefyd angen sicrhau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol addas o safon i'r sawl a fydd yn gweithio yn S4C. Noder bod S4C yn holi am hyfforddiant and ddim yn gofyn barn yr undebau sydd rhyngddynt yn cynrychioli tua 5,000 o bobl yn y diwydiant. Mae angen i S4C trafod mwy gyda cynrychiolydd y gweithwyr sef BECTU, Equity, Undeb y Cerddorion, Undeb yr Ysgrifenyddwyr a Undeb y Newyddiadurwyr.”

Partneriaeth C6

Rhwydwaith ar gyfer darparwyr y diwydiant Creadigol yn Ngogledd Cymru yw C6 sef Prifysgolion Bangor a Pontio a Glyndwr, Cyngor Gwynedd, Cwmni Da, Rondo, Sain, Llywodraeth Cymru, BBC Cymru, S4C a Coleg Llandrillo Cymru. Y sector diwydiannau creadigol yw un o chwe sector sy'n tyfu gyflymaf ac yn strategol bwysig i economi Cymru. Trwy rwydweithio mae modd sicrhau dyfodol y diwydiant ac yn sgil hynny budd economaidd i chwe sir Gogledd Cymru.

‘Bydd rhwydwaith creadigol gogledd Cymru yn arf i dyfu a meithrin y cnewyllyn creadigol er budd economaidd i'r ardal.’

(Cyfle)

Mae'r diwydiannau Creadigol yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn Ngogledd Cymru a thrwy rhwydweithio gellir sicrhau dyfodol llewyrchus i'r diwydiant trwy rannu gwybodaeth; adnoddau ac arbenigeddau a thrwy hynny adnabod yr anghenion addysg ac hyfforddiant wnaiff gwrdd a'r anghenion busnes a'r economi ddigidol.

‘Y mae'r diwydiant yn cefnogi a chreu cyfoeth o swyddi drwy gynhyrchu a manteisio ar eiddo deallusol. Y mae'r sector yn seiliedig ar greadigrwydd, sgiliau a thalent.’

[Cynllun Sectorau Cyflawni, Llywodraeth Cymru]

Gweledigaeth C6 yw:

“Cydweithio i gefnogi, cynnal a datblygu'r cnewyllyn cyfryngau creadigol yng Ngogledd Cymru a chryfhau ei gyfraniad i gymunedau, unigolion ac economi'r ardal”.

“Cryfhau statws y darlledwr o ran y berthynas gyda phrifysgolion ac mudiadau addysg yn yr ardal ac yn enwedig unrhyw gyrsiau sydd yn ymwneud gyda'r cyfryngau, gwaith aml-blattform ac yn y blaen (Theatr Newydd Bryn Terfel ym Mangor yn enghraifft arall o ran potensial cydweithio). Cryfhau partneriaethau gyda chwmnïau creadigol ac unigolion sy'n creu ac yn cynhyrchu deunydd aml blattform.”

Yma mae gynulleidfa craidd diwylliant Cymraeg boed yn wylwyr S4C, gwrandawyr Radio Cymru, cefnogwyr papurau bro, yr Urdd, Cylchoedd Ti a Fi a Meithrin, Clybiau Ffermwyr Ifanc a chefnogwyr pennaf yr Eisteddfod Genedlaethol. O gofio hynny, ac arwyddocâd a phwysigrwydd cenedlaethol yr ardal fel cadarnle'r Gymraeg o ran cynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg, mae'r gryn syndod nad yw yr un o gyrff sector cyhoeddus cenedlaethol Cymru wedi lleoli eu pencadlysoedd yma. Yn ychwanegol o gofio cyflwr bregus economi'r ardal diau y byddai buddion amlycaf fyth yn bodoli o leoli yn y Gogledd Orllewin.

Fel a nodwyd eisoes mae gan yr ardal brofiad degawdau lawer yn y diwydiant creadigol a byddai symud Pencadlys S4C i Gaernarfon yn rhoi dadeni o adfywiad i'r diwydiant ac yn gatalydd allweddol i gyflawni gweledigaeth Gwynedd ar gyfer creu hwb neu ganolfan diwydiant creadigol yn Doc Fictoria. Yn ein dro byddai hynny yn cryfhau'r bartneriaeth ranbarthol sy'n bodoli'n barod trwy C6 gan asio gwasanaeth darlledu Cymraeg yng nghadarnle'r iaith ac yng nghanol cynulleidfa graidd S4C.

“Cryfhau statws y darlledwr o ran y berthynas gyda phrifysgolion ac mudiadau addysg yn yr ardal ac yn enwedig unrhyw gyrsiau sydd yn ymwneud gyda'r cyfryngau, gwaith aml-blattform ac yn y blaen (Theatr Newydd Bryn Terfel ym Mangor yn enghraifft arall o ran potensial cydweithio). Cryfhau partneriaethau gyda chwmnïau creadigol ac unigolion sy'n creu ac yn cynhyrchu deunydd aml blattform.”

7. Cymdeithas

I raddau helaeth mae'r dimensiwn cymdeithasol gyfystyr a'r dimensiwn ieithyddol oherwydd bod y Gymraeg yn rhan mor integral o wead cymunedau'r Gogledd Orllewin. Tystiolaeth bellach o hynny yw'r ymgyrch ar Facebook i ddod a phencadlys S4C i Gaernarfon, sydd a mwy nac 880 wedi datgan cefnogaeth iddo.

Un o fuddion mwyaf adleoli Pencadlys S4C i Gaernarfon i'r 55 aelod staff hynny fyddai'r newid cymdeithasol anhepgor o symud i fyw i'r Gogledd Orllewin. Dim ond yr opsiwn yma sy'n cynnig cyfleoedd ieithyddol a diwylliannol mwy cynhwysfawr ac ychwanegol; gan nad yw'r opsiynau eraill yn gorfodi adleoliad staff o'u manau presennol gan barhau fel cymudwyr i'r gwaith. Felly hefyd mae'r buddiol cymdeithasol i'r Gogledd Orllewin yn fwy a chyflawn gan y byddai teuluoedd Cymraeg newydd yn symud i'r ardal a hynny am y tymor hir yn ôl pob golwg. Yn ei dro byddai dyfodiad S4C yn creu'r catalydd allweddol i weld mwy o symudedd cymdeithasol gyda sefydlu ac ymestyn hwb diwydiant creadigol yn Noc Fictoria, sy'n un o amcanion Cynllun Gofodol ar gyfer Môn – Menai.

Mewn tref ac ardal sydd wedi cael ei effeithio'n andwyol gan y wasgfa economaidd bresennol byddai'r buddiol cymdeithasol o ddyfodiad S4C a chreu'r hwb i'r sector yn enfawr ac yn cydbblethu yn ddelfrydol gyda diffygion cyflogaeth da lleol a phwyslais ar sgiliau dwyieithog.

8. Diwedd glo

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y gogledd-orllewin i barhad y Gymraeg...yn yr ardal ac yn genedlaethol. Mae pob arolwg blaenorol wedi dangos mai yma y mae'r mwyaf o Gymraeg yn cael ei siarad a'i pherchnogi fel priod iaith a pheuoedd defnydd eang a chynhwysfawr. Dengys canlyniadau Cyfrifiad bod talp helaeth o dir yn y gogledd-orllewin lle mae mwyafrif clir o'r boblogaeth gyffredinol a mwyafrif llethol y boblogaeth frodorol yn siarad Cymraeg. Mae cynnal hyn am fod yn gwbl allweddol os am unrhyw fath o barhad i'r Gymraeg fel iaith y mae pobl yn ei siarad yn naturiol o ddydd i ddydd. Yn hynny o beth gall S4C arwain y broses o gynnal at atgyfnerthu'r Gymraeg trwy adleoli ei Phencadlys i Gaernarfon. Mae'r cyfleon ieithyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd wedi eu hadnabod; ac o ran creu'r gwaddol ac effaith ieithyddol ac economaidd mwyaf does dim dwywaith mai'r unig opsiwn ymarferol yw adleoli i Gaernarfon.

Casglu'r adroddiad felly mai'r Gogledd Orllewin, a dim ond y Gogledd Orllewin mewn gwirionedd all gynhyrchu'r buddion ieithyddol mwyaf posibl a ddeuai yn sgil penderfyniad i adleoli.

Priod iaith Gwynedd o hyd yw'r Gymraeg ond heb ymyrraeth a chefnogaeth y wladwriaeth bydd y drefn honno'n newid, a hynny yn barhaol. Dyma gyfle unigryw i S4C gyfrannu'n ymarferol at geisio cynnal hynny trwy ddod a buddion triphlyg i'r ardal ac i'r Gymraeg. Yn gyntaf byddai'n cefnogi, cyfrannu a chynyddu isadeiledd a hygredd marchnad lafur Cymraeg Gwynedd, byddai'n cyfrannu at geisio gwyrddroi y llif o bobl ifanc dwyieithog sy'n allfudo o'r ardal am resymau economaidd, ac yn drydydd byddai'n angori ei hunain yng nghalon ei gynulleidfa graidd gan felly glosio at a chyniwair y graddfa mwyaf posibl o ffyddlondeb ymhlith gwylwyr selog S4C.